

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 155

Rhif 21

Mai 26, 2022

50c.

Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion

O'r cofnodion

Ethol cynrychiolwyr i'r Undeb

Adroddodd yr ysgrifennydd bod Karine Davies wedi derbyn ei henwebiad fel cynrychiolydd y cyfundeb. Cytunwyd i osod y mater o ethol ail gynrychiolydd dan unrhyw fater arall.

Materion amrywiol:

Nododd y cadeirydd y gwneid casgliad er budd cronfa Wcráin Cymorth Cristnogol. Ar gynnig y trysorydd a eiliwyd gan Haulwen Lewis, penderfynwyd cyfrannu £200 o goffrau'r cyfundeb at y casgliad.

Y Weddi Goffáu

Cyflwynwyd y weddi goffáu gan y Parchg Aled Jones. Nodwyd coffadwriaeth am y canlynol:

Delyth Fletcher, Huw Evans (Seion, Aberystwyth)
Meirion Campden, Iorwerth Davies (Saron, Llangeler)
Bronwen James (Bryngwenith)
Eiddwen Thomas (Pantycrugiau)
D. Selwyn Evans, Iris Smith, (Capel Mair, Aberteifi)
Megan Jones, Megan Evans (Bryn-teg)
Alun Davies (Tabernacl, Pencader)
Mary Lloyd (Ebenezer, Llanybi)
Rosalind Jones (Soar, Llanbedr Pont Steffan).

Adroddiad y trysorydd

Cyflwynodd y trysorydd adroddiad llafar ynghylch y sefyllfa ariannol. Nodwyd bod 47 eglwys wedi talu eu tâl aelodaeth i'r cyfundeb – 3 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol – gan greu incwm o £705. Roedd casgliad cwrdd chwarter Soar o £15 yn dod â chyfanswm yr incwm blynyddol i £720 ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn cyfrannwyd at nifer o achosion a gweithgareddau.

Egwyddorion a rheolau'r cyfundeb

Adroddodd y cadeirydd iddi hi a'r Parchg Andrew Lenny adolygu'r ddogfen gyfredol a grëwyd yn yr 1980au ar gais y pwyllgor gwaith. Roedd y pwyllgor gwaith eisoes wedi cael cyfle i roi mewnbwn iddi ac roedd wedi ei dosbarthu i'r eglwysi cyn y cyfarfod. Roedd y cadeirydd yn awyddus bod y gynhadledd yn mabwysiadu'r ddogfen ddrafft adolygedig ar y cyfle cyntaf. Holodd a oedd unrhyw sylwadau. Nododd Parchg Gareth Ioan bod gan eglwys Nanternis nifer o sylwadau ac awgrymiadau ynghylch y ddogfen a holodd ynghylch y broses o'u cyflwyno. Cynigodd wneud hynny ar lafar yn y gynhadledd neu eu cyflwyno i sylw'r swyddogion yn ysgrifenedig. Cytunwyd y byddai'n agored i eglwysi gynnig sylwadau ar y drafft i sylw'r ysgrifennydd erbyn 1 Mai 2022. Byddai'r sylwadau hynny yn cael eu hystyried gan y pwyllgor gwaith cyn dod ag ail ddrafft i sylw'r gynhadledd nesaf ym Mehefin

Adroddiadau o Gyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cyflwynodd Karine Davies adroddiad llafar o'r adrannau y bu'n bresennol yn eu cyfarfodydd ar Zoom ar 15 Mawrth 2022 – Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth a'r Adran Tystiolaeth. O ran Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth nodwyd y bu trafodaeth ar natur gweinidogaeth gyfoes, cyrsiau newydd sy'n cael eu cynnig gan Goleg yr

GOFALAETH
GLANNAU OGWR

Cynhelir Cyfarfod Sefydlu

Y Parchg

Dylan Rhys Parry

yn weinidog ar Ofalaeth Glannau Ogwr sef eglwysi cynulleidfaol Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Tabernacl, Porthcawl.

Nos Iau, 9 Mehefin am 6yh
yn y Tabernacl, Pen-y-bont.

Mae'r ddwy eglwys yn estyn croeso
cynnes i bob un ohonoch i'r oedfa.

Bydd y cyfarfod hefyd yn fyw ar
Zoom. Os am dderbyn y ddolen
cysylltwch drwy anfon e-bost i
glannauogwr@gmail.com



Y Parchg Carys Ann

Annibynwyr, datblygu gofalaethau bro, y rhaglen Arloesi a Buddsoddi a'r bwriad i sefydlu Sul Diogelu. O ran yr Adran Tystiolaeth trafodwyd Y Tyst a'r wefan, cenhadaeth ddigidol, adnoddau digidol a chreu podlediadau i'r ifanc, bugeilio cefn gwlad a'r posibilrwydd o gynnal dathliad cenedlaethol megis Diwrnod i'r Brenin. Cafwyd adroddiad llafar gan yr ysgrifennydd o gyfarfodydd Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang a'r Adran Dinasyddiaeth Gristnogol. Nododd y cafwyd trafodaeth ar genhadaeth ddigidol, gweithgareddau CWM yn Ewrop, y sefyllfa gyfredol yn eglwys gydenwadol Pen-rhys, ynghyd â chynllunio i'r dyfodol. O ran yr Adran Dinasyddiaeth Gristnogol cafwyd cyflwyniad gan Parchg Gethin Rhys, Cytûn, ar ddeddfwriaeth gyfredol Llywodraeth San Steffan a'r tueddiad i'r ddeddfwriaeth gyfredol honno filwrio yn erbyn gwerthoedd rhyddfrydig traddodiadol Prydain. Trafodwyd prosiect i hyrwyddo Eglwysi Dementia-gyfeillgar a chafwyd trafodaeth ar oblygiadau caethwasiaeth hanesyddol i'r eglwys.

Ethol trysorydd ar gyfer Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Gwahoddwyd y cynadledwyr gan y Cadeirydd gynnig enwau ar gyfer swydd trysorydd yr Undeb. Ni dderbyniwyd enwebiad ac anogodd y cadeirydd yr eglwysi unigol i ystyried y mater ymhellach.

parhad ar dudalen 2

Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion – parhad

Unrhyw fater arall

- Nododd y Cadeirydd bod y 25 Medi 2022 wedi ei neilltuo ar gyfer y Sul Sbesial.
- Rhyfel Wcráin: Tynnodd y Parchg Gareth Ioan sylw'r gynhadledd at y rhyfel yn Wcráin, gan gydnabod bod y gynhadledd eisoes wedi cyfeirio at y sefyllfa. Fodd bynnag, roedd bwriad i leoli hyd at 250 o ffoaduriaid yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Awgrymodd y dylai'r cyfundeb gynnig ei wasanaeth i'r Urdd a threfnwyr eraill, megis Cytûn, o ran cynnig cefnogaeth ysbrydol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol i'r ffoaduriaid hynny. Eiliwyd y cynnig gan Lynn Morgan.



Anerchiad

Croesawyd Parchg Beti Wyn James, llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i annerch y gynhadledd gan y cadeirydd. Mewn anerchiad bywiog a rhagweithiol ei dôn, gyda chymorth pwerbwynt, cawsom ein hannog a'n hysbrydoli i wynebu heriau'r cyfnod hwn mewn ffydd. Rhaid mentro ymlaen mewn gobaiith gyda Duw. Diolchwyd iddi yn huawdl am eu hanerchiad pwrpasol a chadarnhaol gan Parchg Andrew Lenny.

Cynhaliwyd y gynhadledd ar ddydd Mercher, 30 Mawrth 2022 yn Hawen, Rhydlewis.

Gŵyl yr Ysbryd Glân

Dyma'r gyntaf o dair erthygl gan Gwilym Wyn, Caerdydd yn ein harwain i fyfrio ar arwyddocâd y Pentecost.

Yr addewid, yr arddeliad, yr arfogaeth, yr aflonyddwr, yr adnewyddwr, y diddanydd, ysbryd y gwirionedd.

Anwybyddu Ei addewid

Mae lle i amau ac ofni bod nifer ohonom yn dibrisio pwysigrwydd ac arwyddocâd Gŵyl y Pentecost (pum deg dydd ar ôl y Pasg). Mae ein dathliad a'n gwerthfawrogiad o'r Sulgwyn wedi troi yn llwydaidd braidd y dyddiau hyn, yn arbennig o ystyried ein bod mewn gwirionedd yn cael ein cymell i ddathlu pen-blwydd geni'r Eglwys yn Jerwsalem. Mae ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o addewid Iesu i'w ddisgyblion ym mhob oes yn allweddol os ydym am fod yn dystion dewr a diwyd 'yn Jerwsalem ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear,' a Chymru 2022.

Yn ôl yr Efyngylau treuliodd Iesu lawer o'i amser yn ceisio egluro pwysigrwydd gweinidogaeth Ei Ysbryd Glân i'r deuddeg disgybl. Cychwynnodd cenhadaeth Iesu o dan arweiniad ac arddeliad yr Ysbryd Glân:

'Wrth i Iesu weddïo ar ôl ei fedydd yn Yr Iorddonen ... disgynnodd yr Ysbryd Glân arno.' (Luc 3:22).

'Dychwelodd Iesu, yn llawn o'r Ysbryd o'r Iorddonen, ac arweiniwyd ef gan yr Ysbryd am ddeugain diwrnod..' (Luc 4:1).

'Dychwelodd Iesu yn nerth yr Ysbryd i Galilea.' (Luc 4:14).

Pan aeth Iesu i addoli yn y synagog ym mro ei febyd yn ôl ei arfer, darllenodd o'r sgrôl, 'Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion.' (Luc 4:18a). Mae'n amlwg bod Iesu wedi ei arwain gan yr Ysbryd Glân ar gychwyn ei weinidogaeth gyhoeddus a'i fod wedi ymateb i'r profiad amhrisiadwy a gafodd yn ei fedydd. Fe gafodd gadarnhad ac ymwybyddiaeth o'r berthynas arbennig oedd ganddo:

'Ti yw fy mab, yr Anwylyd; ynot ti yr



wyf yn ymhyfrydu.' (Luc 3:22b).

'Ti yw fy Mab annwyl i, rwyd wedi fy mhlesio i'n llwyr.' (Beibl.net)

'You are my dearly beloved Son, and you bring me great joy.' (Cyfieithiad NLT)

Os oedd Iesu ei hun yn arddel ei berthynas â'r Ysbryd Glân, oni ddylem ninnau ymateb i'w addewid?

Yr addewid

Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion cyn eu gadael:

'Ac yn awr yr wyf fi'n anfon arnoch yr hyn a addawodd fy Nhaid; chwithau, arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod a nerth.' (Luc 24: 49).

'Oherwydd â dŵr y bedyddiodd Ioan, ond fe'ch bedyddir chwi â'r Ysbryd Glân ymhen ychydig ddyddiau.' (Actau 1:5)

Onid yw'r dystiolaeth yma yn ein cymell ni i ailystyried o ddirif ein hymateb ninnau i addewid grasol gŵyl y Pentecost yn 2022?

Deued fflam yr adnewyddiad,
Rhoddod Gymru oll ar dân;
Deuwn ato'n edifeiriol
Ac fe droir ein gwarth yn gân:
Dwyfol ias, nefol flas
Ddaw drwy'r Ysbryd Glân a'i ras.

Dan Lynn James (*C. Ff.* 579)

O na ddô'r nefol wynt
i chwythu eto,
fel bu'n y dyddiau gynt
drwy'n gwlad yn rhuthro
yn siglo muriau'r tŷ
a phlygu dynion cry';
O deued oddi fry –
mae'n bryd i'w deimlo.

H. T. Jacob (*C. Ff.* 594)

Cynnig Hafan yng Nghaernarfon

Dwi'n hoff iawn o sgwrsio gyda ffrindiau. Un o'r sgwrsiau dros y cyfnod clo cyntaf oedd yr hyn roeddwn yn ei golli am yr amser cyn i'r byd newid yn llwyr. Cyn Covid, roeddwn yn mynd ar wyliau dramor yn reit aml. Ychydig ddyddiau mewn ardal bach braf rywle yn Ewrop. Crwydro'r strydoedd, eistedd tu allan yn darllen. Dim dyddiadur, dim apwyntiadau na chyfarfodydd, dim agenda. Yr oeddwn yn un dda am grwydro a dod o hyd i gapel, eglwys neu gadeirlan. Eistedd yn dawel yno yn myfyrio, yn canolbwyntio arna i a Duw. Wrth gwrs fod addoli ar y Sul yn bwysig, ond yn aml roedd addoli yn golygu eistedd drwy wasanaeth mewn iaith wahanol.

Yr ardd oedd y lle tawel erbyn i mi gael y sgwrs gyda'm ffrind. Yn yr ardd yn gwrando ar yr adar oedd y llonyddwch. Yno roedd fy enaid yn cael llonydd. Yno roeddwn yn dod yn agos at Dduw. Nid ar Zoom, nid dros y ffôn, ond yn yr ardd. Doedd hyn ddim yn anodd iawn yn byw fy hun mewn ardal reit wledig.

Dyweddodd fy ffrind nad oedd wedi profi llonyddwch meddwl ers tro. Roedd wrth ei fodd yn mynd i eistedd mewn addoldy ar ei wyliau hefyd. I oleuo kannwyll, eistedd yn ddistaw yn "hel meddylia". Gorffennodd y sgwrs gyda'm ffrind yn dweud, "Biti does 'na unlle fel yna yn dre i ni fynd". Doedd mynd ar y Sul ddim yn apelio ato, doedd o ddim isio mynd i unrhyw gapel i addoli, ond eto roedd yn gweld bod gan yr Eglwys rywbeth i'w gynnig iddo. Gofod. Gofod i fod yn llonydd ac i fyfyrio, cyfle i oleuo kannwyll ac eistedd yn hel ei feddyliau. Arhosodd y sgwrs yma yn fy nghof am beth amser.

Does dim amheuaeth fod 'na lot fawr o bobl wedi dioddef amser caletach na'r arfer dros y cyfnodau clo. Mae 'na 'greisis' mawr yn ein cymunedau gyda phobl yn dioddef ag anhwylderau iechyd meddwl. Mae 'na lot fawr o iselder ac unigrwydd yn ein cymunedau. Mae 'na ddiffyg arian yn y maes iechyd meddwl, ond eto mae 'na alw mawr am wasanaethau cefnogol.

Yn dilyn sgwrs gyda'r Parchedig Anna Jane Evans, sydd erbyn hyn yn weinidog yng Nghaernarfon, fe benderfynwyd y byddwn yn ceisio gwneud rhywbeth yn ein cymuned i ymateb i'r heriau yma. Roedd



geiriau fy ffrind yn gryf yn fy nghof. Mae 'na gymaint o gapeli yn y dref. Mwy aml na pheidio, oni bai fod 'na weithgarwch penodol, maen nhw i gyd ar gau yn ystod y dydd. Cytunwyd y byddem yn agor ein drysau yng Nghapel y Maes. Dim trefnu gweithgarwch na digwyddiad, dim ond agor y drysau.

Gyda chefnogaeth Cyngor Eglwysi Caernarfon mae prosiect Hafan wedi cychwyn, ac mae 'na wirfoddolwyr o bob capel/enwad yn fy helpu bob wythnos. Bob dydd Mawrth bydd Capel y Maes yng Nghaernarfon ar agor rhwng 12 a 3. Gofod diogel a thawel i unrhyw un ddod i mewn. Cyfle i bobl eistedd yn hel meddyliau neu fyfyrio a gweddio. Gofod i oleuo kannwyll i gofio am golli un annwyl. Cyfle i gael munud fach o dawelwch neu sgwrs a phaned i godi calon.

Un peth yn sicr sydd gennym ydy adeiladau a gofod i'w gynnig i'n cymunedau. Ein gobaith yw y bydd Hafan yn lle i'r enaid gael llonydd i bobl y dref, a'r rheiny sydd yn crwydro.

Oes angen gofod i'r eneidiau gael llonydd yn eich ardal chi? Beth am agor y drysau? Am fwy o wybodaeth neu sgwrs am y prosiect mae croeso i chi gysylltu gyda mi: Llinos.morris@ebcpcw.cymru

Llinos Morris, Caernarfon

Gwahoddiad i Babell yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych a'r Fro 29 Mai-4 Mehefin

Cofiwch fod mynediad i'r brifwyl yn rhad ac am ddim eleni – ond bod yn rhaid archebu tocynnau ymlaen llaw o wefan yr Urdd.

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i droi mewn atom i babell yr eglwysi, o dan nawdd Cytûn Cyngor yr Ysgolion Sul Cymorth Cristnogol.

Bydd dewis o weithgareddau i blant – crefft, lliwio, paentio wynebau ayyb gyda diod a lolipops am ddim hefyd. Bydd cyfle i ymuno gyda Chymorth Cristnogol i gyfrannu at y project celf am newid hinsawdd hefyd.

I rieni ceir dewis da o lyfrau Cristnogol, ac i arweinwyr eglwysi ceir cyfle am sgwrs a chip ar y gwrslyfrau a'r llyfrau defosiynol diweddaraf.



Cofiwch hefyd am yr oedfa fore Sul, 29 Mai, a fydd yn cael ei chynnal eleni yn y Capel Mawr, Dinbych.

Croeso i chi ymuno yn y bwrlwm!

Cenhadwr Caernarfon

Mae'r Parchedig Phil Wyman wedi croesi'r lwerydd i ddod i Gymru sawl tro o'r blaen, ond y tro hwn dod i aros y mae. 'Y tro cynta i mi ymweld â Chymru oedd yn 2003,' meddai, 'ac erbyn hyn dwi'n nabod cannoedd o bobl ar draws y wlad.' Cyrraedd tre'r Cofis ddechrau Mai eleni y mae Phil i weithio gydag eglwys Caersalem, Caernarfon – ac mae ganddo weledigaeth gyffrous.

Anffyddiwr oedd Phil yn ystod ei gyfnod yn y coleg, ac roedd yn hoff o ddadlau â'r Cristnogion ar ei gwrs. Ond newidiodd pethau'n sydyn iddo. 'Mae'r peth yn gwneud i mi chwerthin o hyd! Ges i'r teimlad fod rhywun yn rhoi clatshen i mi ar fy wyneb, a'r gair "Duw" yn dod i fy meddwl o nunlle. A digwyddodd y peth yr ail dro, a'r tro hwn daeth y frawddeg "Jesus died for your sins" i fy mhen. Roedd y peth yn anhygoel – ond ro'n i'n gwybod ei fod yn arwydd clir i mi oddi wrth y Duw hwn roeddwn wedi bod yn dadlau yn ei erbyn.'

Fe ddaeth Phil yn Gristion a thafu ei hunan i fywyd yr eglwys, gan helpu gyda rhaglen adfer ar gyfer pobl ar gyffuriau ac alcohol, ac ar ôl pedair blynedd penderfynu mynd yn weinidog.

Y gymuned baganaidd

O'r cychwyn cyntaf roedd yn awyddus iawn i weithio gyda mudiadau crefyddol newydd: pobl ar yr ymylon a rhai mewn 'cyltiau'. Dyna a'i harweiniodd i Salem, Massachusetts – canolfan fawr i'r gymuned neo-baganaidd yn America lle mae miloedd yn heidio bob Calan Gaeaf. Derbyniodd alwad i fod yn weinidog mewn eglwys yno, a dechrau sylweddoli bod natur y gymuned yn golygu y dylai Cristnogion y cylch ganolbwyntio ar ddod i ddeall y gymuned baganaidd, er mwyn eu gwasanaethu a rhannu'r efengyl gyda nhw. 'Does neb yn disgwyl i Iesu droi i fyny ar ganol digwyddiad Halloween – ond pam lai?' meddai gyda gwên.

Ac felly, dyma nhw'n llogi stonin, gan gynnig pethau fel 'psalm reading' yn hytrach na 'palm reading'. Ymhen fawr o dro roedd pobl yn dod i chwilio amdany'n nhw bob blwyddyn, yn awchu am gael glywed rhagor am y byd ysbrydol hwn oedd mor wahanol i fyfysbrydol gwrrachod a phaganiaeth fodern.

Cymru

Dyma a ddaeth â Phil i Brydain, a dechreuodd grwpiau fel y Church Mission Society ofyn iddo rannu ei brofiadau cenhadol gyda nhw a hyfforddi eu pobl. Ond roedd bob amser yn teimlo ysfu tuag at lefydd ar yr ymylon, a phan ddaeth i nabod Cymru, ei hiaith a'i diwylliant unigryw gwpwl o oriau yn unig i ffwrdd o Lundain, cafodd ei gyfareddu.

Agorodd Duw ddrysau iddo a byddai'r ymweliadau â gwledydd Prydain yn dod yn rhai blynyddol. Datblygodd weinidogaeth mewn gwyliau haf – llefydd fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Burning Man Festival, Gŵyl y Gelli ayyb. 'Y gwirionedd yw,' meddai Phil ag angerdd yn ei lais, 'yn y manau hyn y mae pobl yn ein cymdeithas ni ar eu mwya agored. Efallai fyddai pobl ddim yn fodlon cael sgwrs ysbrydol yn y swyddfa neu ar y trê, ond pan fyddan nhw'n gadael eu gwaltt i lawr mewn gŵyl, fe elli di siarad yn blaen am bethau mawr bywyd yn llawer mwy agored. A dwi'n argyhoeddedig bod angen i Gristnogion fod yno – yn gwranddo, yn ceisio deall a hefyd yn rhannu newyddion da Iesu gyda phobl.'

Datblygodd y cysylltiadau gyda Chaersalem dros amser, ac erbyn 2016 roedd Phil wedi sylweddoli bod Duw yn agor y drws iddo weinidogaethu'n llawn amser yma yng Nghymru. Bwriodd ati i ddysgu'r Gymraeg, ac mae'n siŵr y bydd lleoliad yng Nghaernarfon o fudd mawr iddo ddod i nabod y diwylliant yn drwyadl.

Meddai Rhys Llwyd, gweinidog Caersalem, 'Fe wnes i gyfarfod â Phil am y tro cyntaf 17 mlynedd yn ôl pan ddaeth fel rhan o dîm i helpu i redeg y Gorlan goffi yn yr Eisteddfod ac rydym wedi cadw



cysylltiad ers hynny. Yn Phil mae nifer o fydoedd yn dod ynghyd – yn amlwg ei ffydd Gristnogol, ond hefyd ei ddi-ddordeb mewn athroniaeth, cerddoriaeth a diwylliant yn gyffredinol. Mae'n llwyddo i bontio'r drafodaeth rhwng y bydoedd hynny mewn ffordd nad yw Cristnogion a'r eglwys yn gyffredinol wedi llwyddo i wneud yn ddiweddar. Rwy'n edrych ymlaen i groesawu Phil atom a'i weld yn cyfrannu at y sgwrs sydd angen digwydd ynglŷn â sut mae rhannu a byw'r ffydd Gristnogol yn y cyfnod ôl-Gristnogol yma.'

Gweledigaeth

Ychwanegodd Phil: 'Fy ngweledigaeth yw helpu Cristnogion Cymru i feddwl mewn ffydd newydd a chreadigol ynglŷn â sut mae rhannu eu ffydd. Dwi'n gweld y diwylliant Cymraeg yn hollbwysig wrth ystyried y Cymry i gyd, ac mae gen i ddi-ddordeb mawr yn lle celf a cherddoriaeth yn hyn oll. Un o'r pethau dwi'n gobeithio'i wneud yw mynd ar daith gerdded o amgylch Cymru, yn siarad Cymraeg yn unig, a gwahodd unrhyw un i ddod i ymuno yn y daith wrth i mi fynd trwy eu hardal leol. Pan ydych chi'n cydgerdded, mae amser a hamdden i drafod y byd a'r betws. Mae Duw yn defnyddio pethau anghonfensiynol felly!'

Cristnogaeth 21

Encil y Pentecost

Dydd Sadwrn, Mehefin 18
yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy

**Y gwynt sy'n chwythu lle y mynno
(Ioan 3.8)**

yng nghwmni

Y Gwir Barchedig Andy John, Archesgob Cymru
Y Parch Sara Roberts, Y Parch Aled Lewis Evans

Manon Llwyd a Cefyn Burgess

Cost £25 yn cynnwys bwffe

Cofrestru cyn Mehefin 4
(nifer cyfyngedig)

Catrin Evans: catrin.evans@phonecoop.coop
01248 680858

O'r Beibl: 1

Cyfres newydd ar gyfer astudiaeth bersonol neu fel grŵp

Dod i nabod Duw'n well
Darllen: Salm 119:1-8

Yn ôl y Beibl, prif nod ein bywydau yw gogoneddu Duw a'i fwynhau ef. Mae hyn yn glir trwy'r Beibl i gyd. Mae 1 Corinthiaid 10:31 yn dweud: 'Beth bynnag a wnewch, p'run ai bwyta, neu yfed, neu unrhyw beth arall gnewch bopeth er gogoniant Duw' ac mae Philipiaid 4:4 yn dweud: 'Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser.' Ond sut ydym yn gogoneddu Duw a'i fwynhau ef? Wel, yn bennaf, trwy ddod i'w adnabod ef yn well.

Rydym yn dod i adnabod Duw yn well trwy ddarllen ei air ef, y Beibl. Er i'r llyfr hwn gael ei ysgrifennu gan nifer o awduron dros gannoedd o flynyddoedd, Duw yw'r Awdur sydd wedi ysbrydoli'r cyfan. A thrwy dudalennau'r llyfr unigryw hwn, mae Duw yn dangos i ni sut un ydyw. Gwrandewch ar y ffordd mae Paul yn disgrifio'r Beibl yn 2 Timotheus 3:16:

Y mae pob Ysgrhythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywirow, a disgyblu mewn cyfiawnder.

Mae'r Ysgrhythur i gyd wedi ei hysbrydoli gan Dduw. Mae hyn yn golygu fod y Beibl yn unedig, yn ddibynadwy ac yn glir:

- 1. Mae'r Beibl yn unedig.** Mae 66 llyfr yn y Beibl: 39 yn yr Hen Destament a 27 yn y Testament Newydd. Maent wedi cael eu ysgrifennu gan dros 40 o awduron o wahanol gefndiroedd dros gyfnod o 1,500 o flynyddoedd. Er hynny, yr un neges sydd gan y Beibl gan mai un Duw wnaeth ysbrydoli'r awduron hyn i ysgrifennu: y neges am Dduw sydd wedi gwneud ffordd i achub ac adfer byd colledig drwy ei Fab, yr Arglwydd Iesu Grist.
- 2. Mae'r Beibl yn ddibynadwy.** Gan mai'r Duw da, diffuant a dibynadwy sydd wedi ysbrydoli'r Beibl, mae'r Beibl hefyd yn dda, yn ddiffuant ac yn ddibynadwy. Nid yw'n dysgu celwyddau; dim ond y gwirionedd. Gallwn ni ymddiried yn y Beibl gan ei fod yn ddibynadwy.



- 3. Mae'r Beibl yn glir.** Mae Duw wedi rhoi'r Beibl i ni er mwyn i ni ddod i'w adnabod. Nid yw'r Beibl yn llyfr annealladwy, amwys ac annelwig. Mae'r Beibl yn ddealladwy ac yn glir. Mae pawb - pa faint bynnag o addysg maent wedi ei derbyn - yn gallu ei ddeall a'i ddirnad. Nid oes yn rhaid bod yn ysgolhaig Hebraeg i'w ddarllen. Nid oes yn rhaid cael PhD mewn diwinyddiaeth i fedru deall ei neges. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu nad yw rhai darnau o'r Beibl yn anoddach i'w darllen na rhannau eraill (gall darllen y darnau hyn gyda chymorth esboniad da fod yn help. Mae rhestr ddefnyddiol o rai da ar gael y ddolen: [yma](#)). Ond, er hynny, nid yw anodd yr un peth ag aneglur. Trwy dreulio amser yn astudio'r Beibl yn weddigar, bydd yr Ysbryd Glân yn ein helpu i'w ddeall.

Gallwn felly ddarllen y Beibl yn hyderus. Mae'n unedig, yn ddibynadwy ac yn glir. Trwy'r llyfr hwn, gallwn ni ddod i nabod Duw - a does dim yn bwysicach na hynny. Beth am geisio darllen ychydig adnodau o'r Beibl yn ddyddiol? Dyma arfer all newid ein bywydau. Lle ardderchog i gychwyn yw gyda'r Efyngylau (Mathew, Marc, Luc ac Ioan) sy'n sôn am fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu.

Gwilym Tudur, Aberystwyth



EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU
Eglwys Bresbyteraidd Park End
(Cyfrwng Saesneg)

Gweithiwr Teuluol (Rhan amser)

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru Park End yn tyfu'r tîm arwain sydd ganddynt ac yn awyddus i benodi rhywun i ymuno â thîm yr eglwys i arwain, datblygu a chydlynu Gweinidogaeth Deuluol a Phobl Ifanc a Gweithgareddau Ymestyn Allan.

Lleoliad: Eglwys Bresbyteraidd Cymru Park End, Heol Llandennis, Caerdydd

Oriau: 21 awr yr wythnos

Tymor: 3 blynedd (gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf)

Cyflog: £21,638 - £23,775 (Pwynt 18-22) a chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC. Mae lwfansau tŷ a char yn berthnasol i'r swydd.

I gael disgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â admin@parkendcardiff.org.uk

I ddarganfod mwy am yr eglwys ewch i www.parkendcardiff.org.uk & <https://www.youtube.com/c/ParkEndChurch>

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad manylach DBS a dau eirada boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Dyddiad Cau: 21 Mehefin 2022, 4yh.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 29 Mai, am 7.30yh (ailddarllidir am 11:30yb y Sul canlynol)
Ar drothwy Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych, cawn fwynhau canu cynulleidfaol gan bobl ifanc yr ardal o dan arweiniad Ceri Haf Roberts.

radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 29 Mai, am 7:30yb a 12:00yp
R. Alun Evans yn dathlu canmlwyddiant yr Urdd.

Sul, 29 Mai, am 4:30yp
Gwasanaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Tri chwestiwn ac ateb

Cysylltodd golygydd Papur Dre', Glyn Tomos gyda'r Parchg Ron Williams, Caernarfon yn gofyn iddo ateb tri chwestiwn.



1. Be ydy'r her a'r cyfleoedd sydd wedi bod o ran gwaith yr eglwys dros y degawd diwethaf?

I mi'n bersonol mae her y ddegawd olaf yr un fath â'r heriau ers fy ordeinio a'm sefydlu yn was i Iesu Grist yn 1971. Atgoffaf fy hun yn gyson o'r addeiwion wnes yn yr oedfa honno yng nghapel Bethania, Cwmafan. Dibynnaf yn llwyr ar ras a maddeuant Duw a chymorth yr Ysbryd Glân i'm cynorthwyo gyda'r gwaith. Mae gan bob degawd ei stori ei hun ac o'u cymharu bydd llawer yn debyg ond weithiau bydd y stori'n wahanol. Ers dathlu'r degawd olaf yn Salem gwelwyd dau o ieuencid yr eglwys: Dylan Rhys Parry a Mererid Mair yn cael eu hordeinio. Dylan yn weinidog ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Mererid yn gyd weinidog yn Salem.

2. Pa effaith mae Covid wedi ei gael ar waith yr eglwys a sut ydych yn gweld y sefyllfa gyda'r cyfyngiadau yn cael eu llacio?

Amharodd y firws ar holl weithgareddau'r eglwys. Daeth pob gweithgaredd i ben; nid oedd yn bosib cyfarfod yn y capel na'r festri. Ein blaenoriaeth oedd cadw cysylltiad gyda'r aelodau a chynnal bywyd ysbrydol yr eglwys mewn cyfnod hynod heriol. Cyn

i Zoom ddod yn air allweddol i ni yn Salem, darparwyd oedfa'r Sul ar e-bost a phapur. Ysgrifennais fwy o lythyrau a sgwrsio dros y ffôn nag mewn unrhyw gyfnod arall o'm gweinidogaeth. Wrth i ni ddechrau defnyddio Zoom, daeth cyflwr i ailgydio mewn nifer o weithgareddau. Profiad rhyfedd ar y dechrau oedd gweld pobol mewn sgwâr bychan mewn gwasanaeth, ysgol Sul a phwyllgor! Dyledus ydwyf i Mererid a'm hwyres Seren Lois am drefnu Zoom. I chi sy'n fy nabod, gwyddoch mai elfennol iawn yw fy ngallu cyfrifiadurol! Hefyd crëwyd grŵp WhatsApp ar gyfer yr aelodau a llwyddwyd i gadw cysylltiad, a chynnal ein gilydd mewn ffordd wahanol arall. Rydym yn ôl yn addoli yn y capel ers tro bellach a darlledir ffrwd fyw ar Zoom. Erbyn hyn, mae Taro Fewn yn ôl yn y festri gan sicrhau awyru digonol a chadw pellter. Mor braf hefyd oedd cael ailgychwyn ymweld ag aelodau yn yr ardd neu wrth ddrws yr aelwyd. Mae'r ysgol Sul yn gyffrous o gael ailgychwyn cyfarfod wyneb yn wyneb ar ôl cyfarfod yn rheolaidd dros Zoom.

3. O ran y 10 mlynedd nesaf be ydy'r heriau sy'n wynebu addoldai y dref, a Salem yn arbennig. A yw yn anorfod y gwelwn enwadau y dref yn gorfod meddwl o ddifri am rannu adeiladau ar gyfer addoli?

Yr un her sy'n wynebu addoldai y dref a Salem fel pob tref a phentref arall. Mae capeli'n cau am fod eu cynnal yn ormod o gyfrifoldeb i'r aelodau. Pan fydd hynny'n digwydd, clywir lleisiau'n dweud, 'dim ond waliau neu furiau sydd gennych.' Mae'n amser atgoffa'r cyfryrai bod yna lawer mwy i unrhyw achos – personau, anwyliaid, gweithgarwch, addoliad a chymdeithas i enwi dim ond

rhai. Mae i fyny i bobol Caernarfon os ydynt am drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf dref ddi-gapel/eglwys.

Am ail ran eich cwestiwn Mr Golygydd, dwn i ddim ar ba blaned ydych chi'n byw?! Er fy holl ymdrechion mewn sawl cylch i annog closio ac uno cynulleidfaoedd, â'm pobol yn barod i ddod efo mi ar y daith, os nad yw gynulleidfaoedd eraill yn dangos yr un awydd, yna, yn anffodus, nid yw'n bosib gweithredu.

Pan oedd Canon Roger Donaldson yn gweinidogaethu yn y dref, ac eglwys Santes Fair yn dathlu saith can mlynedd, caniatodd i mi weinyddu'r Cymun nos Iau Cablyd yn yr eglwys. (Yn arferol ni chaniateir i weinidog Anghydfurfiol weinyddu'r cymun yn yr Eglwys Anglicanaidd). Cymerodd saith canrif i hynny ddigwydd! Dwn i ddim a gymer yr un faint o amser i uno cynulleidfaoedd ac uno'r enwadau – gobeithio ddim!

(Allan o *Llinyn Arian*, cylchgrawn eglwys Salem, Caernarfon, Ebrill 2022)

Emyn cyfnod Cofid

O, Arglwydd grasol, clyw ein cri lle bynnag mae 'na ddau neu dri yn plygu glin mewn mawl a chân, grymusa ni â'th Ysbryd Glân, gan wreiddio ynom obaith ffydd i herio'r nos hyd golau dydd.

Mewn dyddiau blin nid oes gorffwys dan gwmwl du y clefyd dwys; daeth dychryn, pryder a thristwch i'n corlannu dan y dŵch. Collwyd, anafwyd eneidiau, Plant, rhieni, neiniau, teidiau.

Diolchwn i'r gwyddonwyr sydd yn arbrofi bob nos a dydd i ddirgelion clefyd cofid i'n harbed rhag gorthwrw gofid. Dysg ni rannu unrhyw lwyddiant â'r truenus yn eu methiant.

Lloriwyd llu gan boen a phryder, adfer hwy i ganfod hyder; trech goleuni na'r tywyllwch; gallwn drechu grym y dryswch; diolch am ofal tra charedig nysr a meddyg i'r briwedig.

Rhyddha ni, Dad, o gaethiwed niwed, difrod i'r diniwed, bywyd diflas y trist a'r tlawd, a dysg i'n helpu chwaer a brawd sy'n amddifad o'n cymorth ni: Gweithredwn dy ewyllys Di.

Gwilym Wyn (goroeswr diolchgar)



Estynnir croeso a gwahoddiad cynnes i

Dathliadau 150 mlwyddiant

Capel Salem, Llanbedr-y-Cennin

Dydd Sul, Mai 29ain 2022

P'nawn Agored 2.30-4.30yp

Arddangosfa o hen luniau

Cyfle i sgwrsio dros baned a chacen

Oedfa o ganu mawl am 5yh

Lledaenwch y gwahoddiad a'r croeso

Cyswllt e-bost: capelsalem1897@gmail.com




Barn Annibynnol

Iesu ddim yn Gristion!

Dyma fi'n pwslo beth sy'n ddigon pwysig i'w rannu gyda chi ddarllenwyr Y Tyst. O'm blaen mae dau lyfr sy'n denu fy sylw. Y cyntaf yw *Dominion* gan Tom Holland, sy'n awdur toreithiog ar fyd y Persiaid a'r Rhufeiniaid. Y llyfr arall yw *Jesus was not a Christian* gan Jim Stacey. Dau lyfr sydd o fudd i unrhyw un sy'n gafael mewn anwybodaeth fel ffordd o osgoi amheuon ffydd, ac i'r rheiny sydd yn meddwl am ffydd fel siwgr, mêl a jam. Mae'r ddau lyfr wedi bod o gymorth i'm cynnal rhag cael fy siomi'n ormodol gan wendidau a drygioni ein hoes. Mewn byd mor anghenus, tra bod eglwysi yn bodloni ar gynnal defodau ac oedfaon a thraddodiadau yn unig, mae llawer i'n siomi.

Llewyrch goleuni


Mae Tom Holland yn cydnabod i'w ffydd bylu. Dechreuodd hynny ddigwydd wrth iddo ddarllen Beibl i blant, ac ynddo lun o Adda ac Efa mewn jwngl yn cwmnia gyda dinosoriaid! Roedd hyn yn gamgymeriad digon rhwydd i rywun â meddwl anfeiriadol, arwynebol ac anwyddonol ei wneud. Mae'r llyfr yn ein tywys trwy storïau sy'n rhan o esblygiad yr eglwys, a'i hochr dywyll. Mae'n dangos sefydliad sydd wedi ei lethu gan bwysau'r awydd am awdurdod llwyr dros bobl, a



arweiniodd yn rhy aml at erlid a chreulondeb. Fodd bynnag, i Holland mae'r goleuni yn dal i lewyrchu'n llachar. Dywed, 'Wrth i mi dreulio blynyddoedd yn astudio'r hen fyd clasurol mae'r byd hwnnw yn mynd yn fwy dieithr i mi ... nid yn gymaint eu creulondeb sy'n fy rhoeni ond absenoldeb llwyr unrhyw werth ar y gwan a'r tlawd ... er i fy ffydd bylu roeddwn yn dal i fod yn Gristion ... ac er bod gafael Cristnogaeth ar wareiddiad nawr yn diflannu o'r golwg, mae'r greddfau'n parhau ac yn gwbl Gristnogol.' Mae'r goleuni'n dal i lewyrchu.

Grym ac awdurdod

Honiad Jim Stacey ar y llaw arall, yw bod lesu'n cael ei golli o dan greddau haearnidd, a'r eglwys yn gyffredinol yn ysu am rym, awdurdod a rheolaeth. Oblegid hyn, mae'r grefydd yn dal pobl yn gaeth wrth wasgu'n




ormodol ar y teimlad o euogrwydd, gan gondemnio unrhyw un sy'n gwyrto oddi wrth ryw norm neu'i gilydd. Wrth apelio arnom i fynd yn ddyfnach nag arferion a defodau a thraddodiad, mae Stacey'n cydnabod bod hynny fel sgîo ar eira llithrig. Mae'n beryglus, ond yn gyffrous. Os yw ffydd yn statig, hwyrach ei fod wedi marw. Mae'r llyfr hwn yn greadigol ac yn galw am ryddhau hanfod y ffydd – sef Iesu.

Heriau i'r ffydd

Beth yw apêl y ddau lyfr? Mae pob oes yn gorfod wynebu heriau i'r ffydd. Yn aml, mae'r ymateb yn gallu bod yn llawn anghysonderau ac yn ddiffygiol. Mae pob un sy'n credu yn gorfod byw gyda'r cyhuddiad o ragrith. Roedd hi'n frawychus gweld esiampI eithafol dros y Pasg, sef Putin yn croesi ei hunan yn ddefodol yn Moscow ar yr un adeg ag yr oedd yn gorchymyn bomio gwragedd a phlant diniwed yn Wcráin. Ond, mae dyn fel Tom Holland yn dal yn Gristion ac yn dilyn ôl traed Iesu, er bod hynny'n annigonol yng ngolwg rheiny sydd yn benderfynol o ddiffinio'r ffydd fel set o greddau. Ar y llaw arall, mae Jim Stacey yn honni fod rhai eglwysi wedi ailddiffinio'r ffydd i'r fath raddau fel na fydden nhw erbyn hyn yn gallu cydnabod fod hyd yn oed Iesu ei hun yn Gristion!

Eirian Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)



Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg 2022

Trwy ryw amryfusedd nid oedd dyddiadau Undeb 150 wedi eu cynnwys yn yr ohebiaeth a anfonwyd o'r swyddfa'n ddiweddar. Ymddiheuriadau fil am hyn.

Dyma nodi, felly, mai o brynhawn Iau, 7 Gorffennaf hyd at amser cinio ddydd Sadwrn, 9 Gorffennaf y cynhelir y gynhadledd flynyddol eleni.

Bydd croeso mawr a chynnes yn ein disgwyl ac edrychwn ymlaen at ddod ynghyd i Gaerfyrddin yn yr haf.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin 2022

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Halliwell,
ar gampws Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3EP



DYDD IAU, 7 Gorffennaf

- 1.30 CYNHADLEDD 1**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Adroddiad Undeb Rhithiol 2021 (y Llyfr Gwyrdd)
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2023
i Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
- 3.00** Te a chacen a chroeso
- 4.00–5.00** Cyfarfod Heddwch
- 5.30** Swper
- 7.30 CYFLWYNIAD** gan aelodau a chyfeillion
eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.

DYDD SADWRN, 9 Gorffennaf

- 9.30** Defosiwn: Parchg Tom Defis, Cadeirydd y Pwyllgor Lleol
- 9.40** Dathliad yr Undeb dan ofal Alun Lenny
- 11.00** Te/coffi
- 11.30 OEDFA'R LLYWYDD**
Llywyddir gan Mr Dafydd Roberts,
Cadeirydd y Cyngor
Coffáu'r rhai a fu farw
Gweddi: Parchg Rhodri Glyn Thomas
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb
- ANERCHIAD Y LLYWYDD:**
Parchg Beti-Wyn James
- 1.00** Cinio ac ymadael

DYDD GWENER, 8 Gorffennaf

- 9.30 CYNHADLEDD 2**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad ar Fuddsodion yr Undeb
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
 - hyd at 3 i'r Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
 - cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
- 11.00** Te/coffi
- 11.30** Y Drysorfa Gynorthwyol
Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau
Y Tyst
- 1.00** Cinio

Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau

- 2.00 CYNHADLEDD 3**
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol
Penderfyniadau
Derbyn gweddill cofnodion y Llyfr Glas
Penderfyniadau
UFA
- 3.30** Te/coffi
- 4.00–5.00 'Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1972-2022'**
Darlith gan Parchg Ddr Geraint Tudur
- 5.30** Swper
- 7.30 OEDFA O FAWL** Capel Heol Awst, Caerfyrddin
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones